# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 6/5/25 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 8/5/25 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 15/5/25 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Paul Rowlinson
Aelod Cabinet Tai ac Eiddo

**PWNC - Pryniant tir ger Ffordd Hendrewen, Bangor.**

**PENDERFYNIAD –**

Caniatáu prynu diddordeb rhydd-ddaliadol tir ger Ffordd Hendrewen, Bangor oddi wrth Adra (Tai) Cyfyngedig ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Dim

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD – ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod/au Cabinet : | Cynghorydd Paul Rowlinson |
| Enw a theitl Awdur yr Adroddiad : | Gethin Jones (Uwch Syrfëwr Stadau) |
| Dyddiad y Cymerwyd y Penderfyniad: | 6/5/25 |
| Llofnod yr Aelod/au Cabinet : | P. J. R |

**Pwnc :**

Pryniant tir ger Ffordd Hendrewen, Bangor.

**Argymhelliad ar gyfer y Penderfyniad :**

Caniatáu prynu diddordeb rhydd-ddaliadol tir ger Ffordd Hendrewen, Bangor oddi wrth Adra (Tai) Cyfyngedig ar delerau ac amodau i'w pennu gan Bennaeth yr Adran Tai ac Eiddo.

**Rheswm dros yr angen am y Penderfyniad :**

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn nodi bod yn rhaid i'r Aelod Cabinet gymeradwyo unrhyw bryniannau a throsglwyddiad uniongyrchol o eiddo.

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad :**

Mae'r Cyngor am adeiladu ysgol newydd ar gyfer Ysgol Ein Harglwyddes ar safle hen Ysgol Glanadda ym Mangor. Bydd yr ysgol newydd yn cynnig addysg Gatholig i blant Bangor a'r cyffiniau ac, felly, y bwriad yw trosglwyddo perchnogaeth yr ysgol newydd a'r tir cysylltiedig i Esgobaeth Wrecsam ar ôl cwblhau adeiladu'r ysgol newydd.

Mae angen i'r Cyngor brynu'r tir cyfagos ym mherchnogaeth Adra (Tai) Cyfyngedig ac wedi'i ddangos gydag ymyl coch ar y cynllun atodedig fel rhan o ddatblygiad yr ysgol newydd i hwyluso adeiladu'r ysgol a gwella cyfleusterau'r ysgol. Mae'r tir yn cael ei brynu am swm enwol a bydd costau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â'r trosglwyddiad yn cael eu talu gan y prosiect ac nid cyllid craidd y Cyngor. Mae'r


prosiect yn cael ei ariannu 85% gan Lywodraeth Cymru a 15% gan Esgobaeth Wrecsam. Ymhellach, ni fydd y Cyngor yn mynd i unrhyw rwymedigaeth tymor hir oherwydd y bwriad i werthu'r tir i Esgobaeth Wrecsam am bris y farchnad unwaith y bydd yr ysgol newydd wedi'i hadeiladu.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau :**
Dim.

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad :**
Prif Swyddog Cyllid – "Dim gwrthwynebiad o safbwynt priodoldeb ariannol.£

Swyddog Monitro – "Rwy'n fodlon gyda priodoldeb y penderfyniad ac yn cadarnhau y gofynion cyfreithiol ynglŷn a throsglwyddo yr eiddo wedi sefydlu'r ysgol. Mae hynny yn drefniant statudol ac yn ddarostyngedig i'r amodau yn ddeddfwriaeth."

Aelod Lleol – (Cynghorydd R. Medwyn Hughes) – Dim gwrthwynebiadau.
Aelod Lleol – (Cynghorydd Huw Wyn Jones) – Dim gwrthwynebiadau.
Aelod Lleol – (Cynghorydd Gareth A. Roberts) – Dim gwrthwynebiadau.




**Cynllun: Plan:** **Land adjacent to Ffordd Hendrewen**

**Graddfa / Scale @ A4:** 1:1,250

© Hawlfraint y Goron a Hawliau Cronfa Ddata 2020 Arolwg Ordnans 100023387 – Cyngor Gwynedd

**Dyddiad: Date:** 08/08/2024